# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Triniaethau Arbennig

## Cyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Mandadol yng Nghymru

## Cylchlythyr Ymarferwyr Rhif 7

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dogfen Ymgynghori**

COFIWCH MAI'R DYDDIAD CAU AR GYFER CYFLWYNO EICH ADBORTH AR EIN CYNIGION AR GYFER Y CYNLLUN TRWYDDEDU YW 19 EBRILL. CLICIWCH AR Y DDOLEN ISOD I GAEL YR HOLL WYBODAETH AC I GYFLWYNO EICH ADBORTH:

Trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru | LLYW.CYMRU

## Dyfarniad Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (RSPH) Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig

Mae adran Cymwysterau Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd yn gweithio gyda darparwr arbenigol ar hyn o bryd er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl adnoddau a dogfennau asesu ar gyfer y cymhwyster ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn bosibl o ganlyniad i grant cyfieithu gan Gymwysterau Cymru. Mae'r Gymdeithas yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a'u canolfannau hyfforddi cymeradwy i sicrhau bod cymaint o ymarferwyr â phosibl yn gallu manteisio ar y cymhwyster pwysig hwn.

Mae holl fanylion y cymhwyster hwn ar gael yn y ddolen isod:

RSPH | Level 2 Award in Infection Prevention and Control for Special Procedures Practitioners [Saesneg yn unig].

## Darperir manylion y cyrsiau a diweddariadau gan yr holl ganolfannau hyfforddi cymeradwy isod:

**Cyngor Cymwysterau ar gyfer Gweithdrefnau Cosmetig (QCCP)**

Mae platfform ar-lein Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2 y Cyngor Cymwysterau ar gyfer Gweithdrefnau Cosmetig bellach yn fyw ac mae modd i ymarferwyr gofrestru nawr gan ddefnyddio'r ddolen hon RSPH Level 2 Registration - (qccp.org.uk) [Saesneg yn unig]. Mae'r Cyngor yn cynnig ymarferwyr y cyfle i arbed £49 ar ffioedd y cymhwyster drwy gofrestru'n gynnar.

Mae **MM Training Academy** bellach yn ganolfan hyfforddi cymeradwy gan Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd, ac mae eisoes yn darparu cyrsiau wyneb yn wyneb neu ar-lein lle mae modd sefyll yr arholiad ar adeg sy'n briodol ichi. Dylai ymarferwyr sydd am gwblhau'r cwrs

gofrestru eu diddordeb drwy fynd i www.mmtrainingacademy.co.uk a dilyn y ddolen i 'online courses'.

**Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir**

Cynhelir ein cwrs nesaf ar 17 Ebrill ac mae eisoes yn llawn, felly rydym yn cynnig cyfle i archebu lle ar y cwrs nesaf o fis Mai ymlaen. Byddwn yn rhyddhau dyddiadau hyfforddiant dros yr wythnosau nesaf ac yn eu cyhoeddi ar ein gwefan: https://www.srs.wales/en/Training/Infection-Prevention-and-Control-for-Special-Procedures-Practitioners.aspx [Saesneg yn unig]

Hoffem dynnu eich sylw hefyd at y bennod ddiweddaraf o'r podlediad Ask the Regulator sy'n trafod y cynllun trwyddedu newydd. Gallwch wrando ar y podlediad yma:

https://podcasters.spotify.com/pod/show/ask-the-regulator/episodes/Ask-the-Regulator---Mandatory-licensing-of-special-procedures-in-Wales-e20thlb [Saesneg yn unig]

Mae **Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Nhorfaen** yn gweithio o hyd ar ddarparu sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Bwriedir rhyddhau'r cyrsiau hyn erbyn mis Mai.

Cynhaliwyd gweminar ar-lein am ddim gan Dîm Diogelu Iechyd Torfaen ddydd Mercher 29 Mawrth. Bu Rachel Richards yn bresennol yn y digwyddiad hwn ar ran Addysg i Oedolion Torfaen er mwyn ateb ymholiadau ynghylch y cymhwyster yn ogystal â rhoi cyfle i unigolion gofrestru eu diddordeb yn y cymhwyster yn gynnar. Felly pan aiff y sesiynau'n fyw, bydd modd cysylltu â'r bobl ar y rhestr ymlaen llaw i gofrestru. Gall ymarferwyr fynegi eu diddordeb drwy e-bostio rachel.richards@torfaen.gov.uk

Mae **Coleg Llandrillo** yn cynnig y dyddiadau hyfforddiant canlynol:

27 Ebrill 2023, Coleg Llandrillo, Campws Rhos,

4 Mai 2023, Llwyn Brain, Bangor,

9 Mai 2023, Coleg Llandrillo, Campws Rhos,

9 Mai 2023, Llwyn Brain, Bangor

Bydd rhagor o ddyddiadau ar gael o fis Mehefin ymlaen, ond gan fod cyrsiau'n cael eu trefnu ar alw, rydym yn annog ymarferwyr i gofrestru eu diddordeb drwy e-bostio Louise Duller yn duller@gllm.ac.uk.

**Gwybodaeth ddefnyddiol arall:**

More people will be able to give blood following scientific review - GOV.UK (www.gov.uk) [Saesneg yn unig]

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfyngiadau arfaethedig ar inciau tatŵ a cholur parhaol ar gael yn y ddolen isod:

HSE publishes restriction opinion on tattoo and permanent make-up inks | HSE Media Centre [Saesneg yn unig]

Mae ymgynghoriad 60 diwrnod ar y Dadansoddiad Economaidd-gymdeithasol wedi cael ei gyhoeddi ar ganolfan ymgynghori yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n cynnwys arolwg ar-lein pe byddwch am gymryd rhan ynddo:

REACH restriction for substances in inks used for tattooing and permanent make up - Health and Safety Executive - Citizen Space (hse.gov.uk) [Saesneg yn unig]